

Edexcel GCE

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu Gymhwysol

Uned 3: Y Gweithiwr Gwybodaeth

Mai 2011

Senario

Cyfeirnod y Papur

6953/01

Dylai'r senario gael ei ddosbarthu i ymgeiswyr o leiaf dair wythnos waith cyn yr arholiad.

Ffeiliau ymarfer: Basketware_practice.txt, Carved_practice.txt, Jewellery_practice.txt, Woollen_practice.txt, Kraftz_practice.xls

Dylai'r senario hwn gael ei ddefnyddio at ddiben paratoi ymgeiswyr ar gyfer yr arholiad. **Ni chaniateir** mynd â'r copi hwn i mewn i'r arholiad. Bydd y wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn y senario yn cael ei chynnwys yn y papur arholiad.

Mae mwy o fanylion i'w cael yn y Cyfarwyddiadau ar gyfer Cynnal Arholiadau (ICE), sydd ar gael o wefan Edexcel ar gyfer y cymhwyster hwn.

Ni fydd Edexcel yn derbyn unrhyw gais am ystyriaeth arbennig os rhoddir y senario anghywir i ymgeiswyr ar gyfer yr arholiad y maent yn ei sefyll.

Trowch y dudalen

W40786A

©2011 Edexcel Limited.

1/



Senario

Kornish Kraftz

Gadawodd Steve Gates y brifysgol gyda gradd mewn Busnes a Marchnata. Ers hynny, bu'n gweithio i gwmni hysbysebu blaenllaw, 'Badger Tate'. Daeth y syniad ar gyfer 'Kornish Kraftz' iddo pan oedd yn ymweld â'i frawd iau, Jim, oedd yn gweithio fel tywysydd teithiau (*tour guide*) yng Nghernyw.

Roedd Jim yn byw mewn pentref a arferai fod yn bentref pysgota bach, er nad oes llawer o bysgota'n digwydd erbyn hyn. I raddau helaeth, mae'r enciliad (*recession*) a chwotâu pysgota wedi dinistrio ffordd draddodiadol y boblogaeth leol o ennill bywoliaeth. Mae'r rhan fwyaf o'r pentref bellach yn dibynnu ar dwristiaeth am ei hincwm. Mae llawer o'r crefftau traddodiadol, fel gwau (*knitting*), gwehyddu basgedi (*basket-weaving*), cerfio gwrthrychau pren a gwneud gemwaith wedi goroesi ymysg y teuluoedd pysgota traddodiadol.

Nododd Steve gyfle busnes yn gwerthu eitemau wedi'u cynhyrchu'n lleol i dwristiaid. Drwy Jim, fe drefnodd fod nifer o grefftwyr yn cyflenwi nwyddau iddo. Trefnodd Steve y cyllid i agor siop yn Falmouth. Roedd y siop yn gwerthu nwyddau basged, gwrthrychau wedi eu cerfio, eitemau gwlan, a gemwaith a wnaed â llaw (*handmade*), a chafodd Jim y gwaith o redeg y siop.

Fe wnaeth 'Kornish Kraftz' ffynnu (*flourish*) a gwneud elw da. Tair blynedd yn ddiweddarach, roedd Steve o'r farn y byddai'n braf ehangu'r busnes. Penderfynodd ymchwilio i ddichonoldeb (*feasibility*) agor siopau mewn trefi eraill. Nododd ef allfeydd (*outlets*) posibl yn Redruth, St Ives, Newquay, Mousehole, Land's End, St Austell, Bodmin, Truro, Bude a Penzance.

Mae 'Kornish Kraftz' yn dibynnu'n helaeth ar y fasnach dwristiaeth ac mae Steve yn disgwyl y bydd y busnes estynedig yn gwneud hynny hefyd. I helpu iddo benderfynu pa un o'r allfeydd posibl hyn fyddai'r mwyaf proffidiol, chwiliodd am fusnesau eraill, oedd yr un mor ddibynnol ar y fasnach dwristiaeth, gydag allfeydd yn yr un trefi.

Daeth o hyd i gadwyn o siopau cofroddion (*souvenir shops*) a masnachfaint (*franchise*) cyflenwadau syrffio, a phenderfynodd mai'r siopau cofroddion oedd y dewis gorau. Cysylltodd â pherchennog y gadwyn o siopau, a rhoddodd e'r ffigurau gwerthiant ar gyfer y siopau cofroddion y llynedd i Steve. Gan ddefnyddio'r ffigurau hyn, cyfrifodd Steve sgôr (*rating*) ar gyfer pob un o'r allfeydd posibl o gymharu â'r ffigurau gwerthiant ar gyfer ei siop 'Kornish Kraftz' yn Falmouth. Rhoddodd sgôr 1 i'r siop yn Falmouth a sgorau uwch neu is i'r siopau eraill yn ôl eu gwerthiant.

Fel arbenigwr ar farchnata, roedd Steve wedi rhoi cynnig ar sawl ffordd o hyrwyddo'r siop yn Falmouth. Roedd wedi rhoi cynnig ar hysbysebu yn y wasg leol, dosbarthu taflenni, hysbysebion ar y radio lleol a phosteri ar hysbysfyrdau (*billboards*). Astudiodd e'r effaith y cafodd pob un o'r dulliau hyn ar werthiant.

Oherwydd ei fod ar fin ehangu ei fusnes, mae angen i Steve gynyddu cyflenwad (*supply*) y cynhyrchion sy'n cael eu gwerthu gan 'Kornish Kraftz'. Mae ef wedi treulio llawer o amser yn recriwtio mwy o grefftwyr. Er y byddai hyn yn cynyddu amrywiaeth y cynhyrchion sydd ar gael yn sylweddol, mae terfyn ar faint o bob eitem sy'n gallu cael ei gynhyrchu bob mis.

Bydd angen mwy o staff ar Steve i redeg yr allfeydd posibl. Bydd y nifer angenrheidiol o staff yn amrywio yn ôl y gwerthiant posibl a maint yr allfeydd.

Mae Steve wedi gofyn i'r cwmni y mae'n ei ddefnyddio i gasglu stoc oddi wrth y crefftwyr am amcangyfrif o faint byddai'n ei godi i gludo nwyddau i bob un o'r allfeydd posibl. Hefyd, mae ef wedi casglu ffigurau ar gyfer y rhent a'r taliadau cyfleustodau (*utilities*) oddi wrth y gwerthwr eiddo (*estate agent*) a ddaeth o hyd i'r allfeydd posibl iddo.

Mae Steve wedi ceisio creu model i'w helpu i wneud penderfyniadau. Bu'n rhaid iddo fynd i ffwrdd ar daith fusnes gyda'i brif swydd. Mae ef wedi'ch cyflogi chi fel arbenigwr Technoleg Gwybodaeth (TG) i gwblhau'r model a rhoi cyngor iddo ar ba siopau i'w hagog. Hefyd, mae ef wedi gofyn i chi roi cyngor ar y ffordd orau o hyrwyddo'r busnes estynedig.

Disgrifiad o'r model

Taflen waith	Disgrifiad
<i>Values</i>	Ar y daflen waith <i>Values</i> , gallwch ddewis p'un ai i agor siop ai peidio, a'r math o hysbysebu rydych chi'n dymuno ei ddefnyddio. Bydd y daflen waith hefyd yn cyfrifo costau, refeniw ac elw blynyddol.
<i>Monthly Figures</i>	Mae'r daflen waith hon yn cyfrifo costau a refeniw fesul mis. Bydd y costau'n cael eu heitmeiddio (<i>itemised</i>).
<i>Advertising</i>	Mae'r daflen waith hon yn cynnwys y data a'r fformiwlâu y bydd y model yn eu defnyddio wrth gyfrifo costau hysbysebu.
<i>Totals</i>	Mae'r daflen waith hon yn cynnwys y costau wedi'u heitmeiddio ar gyfer y siop yn Falmouth, a chostau wedi'u cyfrifo ar gyfer pan fydd siopau eraill yn cael eu hagor.
<i>Woollen Products, Carved Products, Basketware a Jewellery</i>	Mae'r taflenni gwaith hyn yn cynnwys ffigurau gwerthiant ar gyfer yr eitemau amrywiol ym mhob categori a gwerthoedd wedi'u rhagfynegi (<i>predicted values</i>) pe bai siopau eraill yn cael eu hagor.

Mae rhai celloedd yn y model wedi'u diogelu gan gyfrinair. Os ydych yn dymuno arbrofi â'r model, y cyfrinair yw *edexcel*. Cofiwch, os ydych yn newid cynnwys unrhyw gell sydd wedi'i ddiogelu, mae'n bosibl na fydd y model yn gweithio.